
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf

# Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

## Dwy flynedd yn ddiweddarach: cipolwg ar gynnydd yn 2023/24



# Rhagair Ysgrifennydd y Cabinet

Mae'r adroddiad hwn yn bwrw golwg ar y cynnydd a gafodd ei wneud yn 2023/24 yn erbyn yr amcanion sydd wedi'u nodi yn y **Chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng: llawlyfr polisi ar gyfer 2021 i 2026**, ar ôl sefydlu rhaglen genedlaethol i helpu byrddau iechyd i ddarparu'r gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf.

Yn ystod yr ail flwyddyn hon o’r rhaglen, rydym wedi parhau i gefnogi sefydliadau'r GIG drwy ddarparu mynediad at gyllid ychwanegol gwerth £25 miliwn. Defnyddiwyd y cyllid hwn yn bennaf i helpu i wireddu fy mlaenoriaethau i gynyddu capasiti gofal brys fel rhan o broses o symud tuag at fodel gofal brys integredig 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, ac i ehangu gwasanaethau gofal argyfwng yr un diwrnod wrth ddrws ffrynt ysbytai er mwyn helpu mwy o bobl i osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty, a hynny mewn ffordd ddiogel.

Y llynedd, fe wnaethom gyhoeddi **Datganiad Ansawdd ar gyfer Gofal mewn Adrannau Achosion Brys**. Mae’r Datganiad hwn yn ategu'r ymrwymiadau a gafodd eu gwneud yn y llawlyfr, gan amlinellu'r canlyniadau a'r safonau y dylai pobl ddisgwyl eu derbyn wrth gael mynediad at ofal mewn adrannau achosion brys o ansawdd uchel ledled Cymru. Er mwyn sbarduno cynnydd, lansiwyd fframwaith achredu cenedlaethol 'Adrannau Achosion Brys Gwyrdd' ym mhob adran achosion brys, mewn cydweithrediad â’r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys. Ni yw’r wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno hyn yn genedlaethol, gan ymgorffori arferion gwaith cynaliadwy a chael effaith gadarnhaol ar leihau allyriadau, gwastraff a chostau.

Mae prosiectau ar draws y chwe nod yn parhau i gael eu sefydlu er mwyn darparu cymorth i boblogaethau allweddol yn ystod ail flwyddyn y rhaglen. Er enghraifft, gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio i helpu oedolion eiddil sydd wedi torri esgyrn er mwyn eu hatal rhag gorfod cael cyfnodau o ofal brys neu ofal mewn argyfwng yn y dyfodol; dyfeisiau i’w gwisgo er mwyn helpu pobl i osgoi mynd i'r ysbyty neu i ddychwelyd adref o'r ysbyty yn ddiogel pan fyddant yn barod i gael eu monitro ymhellach; a llwybr GIG 111 Cymru newydd i roi cyngor i rieni plant ifanc er mwyn eu helpu i osgoi teithiau diangen i adrannau achosion brys, a hynny mewn ffordd ddiogel.

Yn ystod ail flwyddyn y rhaglen, dengys data'r GIG ein bod wedi gweld y canlynol:

- **11,000 o bobl, ar gyfartaledd, yn defnyddio canolfannau gofal sylfaenol brys bob mis**, gydag 85% yn cael eu rheoli heb orfod cael mynediad at adran achosion brys;*
- **amser brysbennu mewn adrannau achosion brys mawr yn sefydlogi i tua 20 munud**, gan helpu i gefnogi cyfnodau aros mwy diogel ar gyfer mwy na thri chwarter miliwn o bobl, er gwaethaf pwysau parhaus a di-baid ar staff yr adrannau hyn;*
- **blwyddyn yn mynd heibio ers sefydlu un pwynt cyswllt cenedlaethol 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer iechyd meddwl** (GIG 111 Cymru pwyso 2), sy’n derbyn mwy na 6,000 o alwadau bob mis;*
- mwy na 7,500 o bobl yn defnyddio gwasanaethau gofal argyfwng yr un diwrnod bob mis a bron i **80% o bobl yn cael eu rhyddhau i fynd adref ar yr un diwrnod** yn ôl gwybodaeth reoli byrddau iechyd;* a
- **gostyngiad mewn cyfnodau aros cyfartalog mewn ysbytai** dros y flwyddyn galendr, o 8.5 diwrnod (Ionawr 2023) i 7 diwrnod (Rhagfyr 2023).*

* Gwybodaeth reoli’r GIG.

Dylid ystyried y cynnydd hwn yng nghyd-destun pwysau parhaus a di-baid ar staff gofal brys a gofal mewn argyfwng, nad ydynt yn unigryw i Gymru. Mae'r heriau hyn yn deillio o newid yn y galw, cyfnodau o weithredu diwydiannol, a chyfyngiadau o ran capasiti mewn rhannau allweddol o'r llwybr gofal brys a gofal mewn argyfwng.

Mae rhai o'r rhain yn broblemau cymhleth, sydd wedi gwreiddio'n ddwfn, a fydd yn cymryd amser i'w goresgyn, ond rydym wedi ymrwymo i ddal ati drwy ddarparu cymorth i fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol drwy'r rhaglen hon a rhaglenni trawsnewid cenedlaethol eraill sydd wedi'u cynllunio i reoli mwy o bobl yn y gymuned a helpu pobl i ddychwelyd adref o'r ysbyty pan fyddant yn barod.

Fodd bynnag, wrth symud i drydedd flwyddyn y rhaglen, rwy'n disgwyl gweld awydd a phenderfyniad o'r newydd, ac ymdrech ar y cyd i wneud cynnydd diriaethol yn erbyn rhai o'r problemau sydd wedi gwreiddio fwyaf.

---

Rwy'n disgwyl gweld mwy o bwyslais ar ymyriadau gwerth uchel, sy'n gwneud defnydd gwell o'r cyllid sydd ar gael i sicrhau canlyniadau gwell.

---

Bydd angen canolbwyntio mwy ar gymryd camau rhagweithiol i helpu poblogaethau i aros yn iach, atal dirywiad, a'u galluogi i dderbyn gofal acíwt yn ddiogel mewn lleoliadau cymunedol, gan atal y defnydd amhriodol o wasanaethau ambiwlans neu adrannau achosion brys a derbyniadau i'r ysbyty. Hefyd, bydd disgwyliadau mwy trylwyr ar gyfer gwelliant yn erbyn marcwyr allweddol y system, megis perfformiad trosglwyddo cleifion o ambiwlansys ac arosiadau hir anniogel mewn adrannau achosion brys.

Ar gyfer gofal brys, fel rhan o'r dewisiadau eraill sy'n ddiogel yn glinigol yn lle mynd i'r ysbyty, bydd disgwyl i'r byrddau iechyd ddangos cynnydd yn nifer y bobl sy'n derbyn gofal cymunedol uwch lefel 4 erbyn mis Medi 2025, er mwyn sicrhau bod modd darparu gofal yn agosach i gartrefi pobl, lle bynnag y bo hynny'n briodol yn glinigol.

Mae'r cyhoedd yn gallu gwneud cyfraniad allweddol at ein helpu i wireddu ein gweledigaeth. Drwy fyw bywydau iachach, rydym yn gallu gwella canlyniadau iechyd, llesiant a phrofiad cleifion i bawb.





**Eluned Morgan AS**
Ysgrifennydd y Cabinet
dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

© Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49645, ISBN digidol 978-1-83625-197-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys

**Diweddariad gan Gadeirydd bwrdd y rhaglen**

Bwrw golwg ar gynnydd ym mlwyddyn dau ac edrych ymlaen at 2024/25 5

**Nod 1: Cipolwg ar gynnydd blwyddyn dau 7**

**Astudiaeth achos:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe: Datblygu Clwstwr Carlam 8

**Nod 2: Cipolwg ar gynnydd blwyddyn dau 9**

**Astudiaeth achos:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: Gofal Sylfaenol Brys 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos 11

**Nod 3: Cipolwg ar gynnydd blwyddyn dau 12**

**Astudiaeth achos:** Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre: Gwasanaethau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod 14

**Nod 4: Cipolwg ar gynnydd blwyddyn dau 15**

**Astudiaeth achos:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: Trosglwyddo Cleifion o Ambiwlansys 17

**Nod 5: Cipolwg ar gynnydd blwyddyn dau 18**

**Astudiaeth achos:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: Llif Cleifion 19

**Nod 6: Cipolwg ar gynnydd blwyddyn dau 20**

**Astudiaeth achos:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Gofal yn Nes at y Cartref 22

# Diweddariad gan Gadeirydd bwrdd y rhaglen

## Bwrw golwg ar gynnydd ym mlwyddyn dau ac edrych ymlaen at 2024/25

Fel Cadeirydd bwrdd y rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, mae'n galonogol gweld y cynnydd sydd wedi'i wneud gan y rhaglen yn ystod yr ail flwyddyn. Mae'r adroddiad yn amlinellu llawer o welliannau a'r cyfle i wneud cynnydd pellach.

Mae'r galw am wasanaethau Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng ar ei lefel uchaf o hyd ac mae gwasanaethau dan bwysau cyson i fodloni'r gofynion hyn. Mae ein staff wedi parhau i ymateb i'r heriau hyn ac ymgysylltu â'r rhaglen, ac rwy'n ddiolchgar iawn am eu hymrwymiad parhaus.

Er gwaethaf y lefelau uchel o weithgarwch sydd wedi arwain at gynnydd gweithredol, yr heriau o ymateb i weithredu diwydiannol ochr yn ochr â heriau'r gweithlu, heriau ariannol a heriau gweithredol, mae'r rhaglen wedi sicrhau newid a gwelliant ym mlwyddyn dau.

Yn y cyd-destun hwn, dylid canmol staff iechyd a gofal cymdeithasol am eu hymdrechion ar y cyd ac am wella canlyniadau i bobl yng Nghymru, fel y'u nodir yn yr astudiaethau achos yn y ddogfen hon. Mae'n amlwg na fyddai'r profiadau a'r canlyniadau gwell hyn wedi digwydd heb y cymorth sydd wedi'i gynnig drwy'r rhaglen chwe nod genedlaethol.

### Er enghraifft:

1. Mae gwasanaeth Llwybr Cwmtawe ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, **sy'n cefnogi pobl ag anghenion o ran camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig ac iechyd meddwl,** wedi arwain at ostyngiad o 60% yn y galw brys am feddygon teulu yn ogystal â chynnydd o 98% yn nifer y cleifion sydd â mynediad gwell at ffynonellau cymorth eraill.*
2. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro **wedi gwella ei berfformiad o ran trosglwyddo cleifion o ambiwlansys** yn sylweddol dros y 18 mis diwethaf; gan ddileu arosiadau 4 awr i gleifion yn gyfan gwbl, a lleihau nifer yr arosiadau 2 awr ar gyfer trosglwyddo i ofal staff yr adran achosion brys i lai nag 1% o'r holl gleifion sy'n cyrraedd.*
3. Lansiwyd model integredig wedi'i gydleoli dan arweiniad ymarferydd nyrsio ar gyfer y Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys a'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Ystrad Fawr ym mis Tachwedd 2023. Ers hynny, **mae 866 o gleifion wedi derbyn cymorth gan y gwasanaeth**. Mae hyn yn galluogi cleifion i gael y gofal iawn, yn lleihau nifer y derbyniadau y gellir eu hosgoi yn adran achosion brys Ysbyty Athrofaol y Faenor, ac yn cefnogi cynaliadwyedd gofal sylfaenol.*

* Gwybodaeth reoli'r GIG.



Mae pob un ohonom yn gwybod bod llawer o waith i'w wneud o hyd.
Yn 2024/25, yn ogystal â blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet, rwy'n disgwyl gweld y canlynol:

- proses gyflymach o ddatblygu modelau gofal brys integredig 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos gan bob bwrdd iechyd er mwyn helpu mwy o bobl i gael mynediad at lwybrau sydd ar gael yn gyson bob dydd o'r wythnos;
- byrddau iechyd yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i sefydlu llwybrau mwy hygyrch i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru allu helpu pobl sydd wedi cwympo ond y gellir gofalu amdanynt yn ddiogel yn y gymuned; yn ogystal â llwybrau cadarn ar gyfer pobl sydd wedi cael strôc a phobl sydd â chyflyrau anadlol acíwt;
- cynlluniau cyflawni clir sy'n cyd-fynd â'n datganiad ansawdd ar gyfer gofal mewn adrannau achosion brys;
- datblygu gwasanaethau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl eiddil oedrannus sydd ag anghenion gofal acíwt; a
- pherchnogaeth gan swyddogion gweithredol byrddau iechyd o gynlluniau integredig ar y cyd i gynorthwyo'r broses o ryddhau pobl i fynd adref o ysbytai yn amserol, er mwyn helpu i leihau arosiadau hir mewn ysbytai ar gyfer ein poblogaethau mwyaf agored i niwed.

Mae cynlluniau rhaglenni integredig lleol yn hanfodol i wireddu blaenoriaethau polisi a sicrhau gwelliant pellach ar gyfer poblogaethau lleol, ac rwy'n disgwyl gweld y cynlluniau hyn yn aeddfedu ac yn cael eu cyflwyno yn gyflymach ym mhob bwrdd iechyd yn 2024/25. Byddwn yn gwella'r broses o fonitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau allweddol, ac yn cefnogi'r broses hon lle bo angen.

**Nick Wood**
*Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru,*
*Cadeirydd Bwrdd y Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng*

# **Nod 1:** cynnydd blwyddyn dau

## **Nod 1:**
## Cydgysylltu, cynllunio a chymorth ar gyfer poblogaethau sydd â risg uwch o fod angen gofal brys neu ofal mewn argyfwng

### Ein gweledigaeth:

Dylai sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol weithio ar y cyd â phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid trydydd sector i ddarparu gwasanaeth iechyd a gofal ymatebol, cydgysylltiedig ac integredig, gan helpu pobl i aros yn iach yn hirach a chael cymorth rhagweithiol, ymyriadau ataliol neu driniaeth sylfaenol cyn i'r sefyllfa droi'n un frys neu'n un argyfyngus.

**Cynnydd o ran y Rhaglen Chwe Nod yn 2023/24:**

- **'Grwpiau Cynllunio Clwstwr Cyfan'**
  - Mae 20 o Grwpiau Cynllunio Clwstwr Cyfan wedi'u sefydlu ac mae'r aelodau yn dod o fyrddau iechyd, Awdurdodau Lleol, y Sector Gwirfoddol a Llais, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Nyrsys Cymunedol ac Arweinwyr Clwstwr.
  - Mae Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth yn cael eu defnyddio i ystyried blaenoriaethau ar gyfer ardaloedd penodol, a byddant yn aeddfedu dros amser ac yn dod yn rhan annatod o'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a chynlluniau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

- **Datblygu Clystyrau (Gofal Sylfaenol) Carlam**
  - Mae pecyn cymorth hunanfyfyrio wedi cael ei ddatblygu er mwyn helpu Clystyrau i werthuso eu lefel aeddfedrwydd, eu gwaith ar draws sectorau, eu harweinyddiaeth a mwy, er mwyn canolbwyntio ar y bylchau mewn gwasanaethau a gwella dulliau gweithredu.
  - Bydd hyn yn helpu i baratoi Clystyrau yn well i wneud cyfraniad hanfodol o ran cynllunio a gwneud penderfyniadau yn eu hardal, gan sicrhau eu bod yn gallu siarad ac eirioli'n gryf dros y boblogaeth leol.

- **Anghydraddoldebau iechyd**
  - Mae llawer o waith wedi cael ei wneud i ddatblygu manyleb Cymru Gyfan gyson ar gyfer darparu gwasanaethau i grwpiau agored i niwed a grwpiau ar y cyrion ar sail model haenog. Caiff y fanyleb ei chyflwyno i'r byrddau iechyd yn fuan ynghyd â chyfres o adnoddau ategol.
  - Bydd mabwysiadu'r fanyleb hon yn arwain at ganlyniadau iechyd a gofal gwell ar gyfer y grwpiau hyn, gan gynnig darpariaeth gyson ledled Cymru. O safbwynt economeg iechyd, bydd yn darparu triniaeth a gofal mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol.



# Nod 1: Astudiaeth Achos

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe: Datblygu Clwstwr Carlam

“Mae Gwasanaeth Llwybr Cwmtawe yn cynnig cymorth i bobl sy'n wynebu problemau o ran camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl a cham-drin domestig, gan gynnwys trais rhywiol – yn ogystal ag aelodau o'u teuluoedd sy'n cael eu heffeithio.

Yn 2023, derbyniodd y gwasanaeth Wobr GIG Cymru yn y categori 'Darparu Gwasanaethau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn'. Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, gan gytuno ar ymyriadau ystyrlon ar gyfer pob unigolyn er mwyn mynd i'r afael â'u materion neu eu hanghenion nad ydynt yn cael eu diwallu.

Mae cleifion yn cael eu hasesu cyn y bydd pecyn cymorth pwrpasol yn cael ei lunio ar sail eu hanghenion a'u nodau. Mae cymorth un-i-un yn cael ei ddarparu, gan gynnwys addysg yn ymwneud â thrawma, cwsg a maeth, cymorth i gael cefnogaeth gan Awdurdodau Lleol neu dimau iechyd meddwl a chymorth i lywio gwasanaethau priodol.

**Mae cyflwyno'r gwasanaeth wedi arwain at ostyngiad o 60% yn y galw am feddygon teulu, yn ogystal â chynnydd o 98% yn nifer y cleifion sydd â mynediad gwell at ffynonellau cymorth eraill."***

* Gwybodaeth reoli'r GIG.

# **Nod 2:** cynnydd blwyddyn dau

## **Nod 2:**
## Cyfeirio pobl ag anghenion gofal brys i'r lle iawn y tro cyntaf

### Ein gweledigaeth:

Pan fydd pobl angen neu eisiau gofal brys, gallant ddefnyddio gwasanaeth gofal brys 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos drwy wasanaeth ar-lein neu ffôn GIG 111 Cymru lle byddant yn cael cyngor a, phan fo angen, yn cael eu cyfeirio neu eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth iawn, naill ai yn y gymuned neu mewn ysbyty, a hynny y tro cyntaf. Cyflawnir hyn drwy ddatblygu gwasanaeth gofal brys integredig 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

**Cynnydd o ran y Rhaglen Chwe Nod yn 2023/24:**

- **Sefydlogrwydd GIG 111 Cymru**
  - Erbyn hyn, mae 111 yn wasanaeth cenedlaethol cyson, sy'n sicrhau bod gan bobl Cymru fynediad haws at wasanaethau a chyngor gofal brys. Yn 2023/24, derbyniodd y gwasanaeth, ar gyfartaledd, 79,000 o alwadau ffôn a thros 500,000 o ymweliadau â'i wefan, a chafodd ei ddefnyddio gan hyd at 18,000 o bobl i wirio eu symptomau bob mis. Erbyn hyn, mae ystod o wasanaethau yn fwy hygyrch i gleifion ag anghenion penodol drwy ddefnyddio 111, gan gynnwys:*

- **Llwybr gofal lliniarol**
  - Mae llwybr gwell wedi cael ei ddatblygu i drawsnewid y cynnig 111 i gleifion, eu teuluoedd/gofalwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol sydd angen cymorth gyda gofal lliniarol diwedd oes. Mae'r opsiwn gwasanaeth 111 pwyso 0 wedi bod ar gael ers Pasg 2023 ac mae wedi derbyn 2,963 o alwadau yn ystod y flwyddyn gyntaf, gan sicrhau bod galwadau gofal lliniarol yn cael blaenoriaeth ac yn cael eu hateb yn gynt.*

- **Cymorth iechyd meddwl**
  - Mae'r gwasanaeth 111 pwyso 2 ar gael yn genedlaethol ac mae'n trawsnewid y ffordd y mae pobl yn cael mynediad at gymorth iechyd meddwl brys yng Nghymru. Mae ar gael i bobl o bob oed, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Mae gwybodaeth reoli yn awgrymu bod dros 6,000 o alwadau ffôn wedi'u derbyn bob mis yn y flwyddyn gyntaf, a bod angen atgyfeirio llai na 10% ohonynt i 999 neu adran achosion brys.*

* Gwybodaeth reoli'r GIG.

- **Apwyntiadau mewn Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys**
  – Ym mis Ionawr 2024, dechreuodd cynllun peilot mewn dwy ardal bwrdd iechyd sy'n caniatáu i gleifion gael apwyntiad yn uniongyrchol mewn Canolfan Gofal Sylfaenol Brys drwy'r gwasanaeth 111. Mae cyfres o feini prawf wedi cael eu datblygu a'u hadolygu, gan sicrhau bod boddhad cleifion wedi bod yn gadarnhaol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ymestyn y gwasanaeth i safleoedd eraill.

- **Cynnig 111 ar gyfer plant dan 16 oed**
  – Mae Meddygon Ymgynghorol Pediatrig yn gweithio i ddarparu mynediad amserol at glinigwr priodol i blant dan 16 oed, gan helpu i leihau nifer yr atgyfeiriadau i adrannau achosion brys a gofal sylfaenol. Rhoddwyd cymorth i dros 500 o blant yn ystod y 15 wythnos gyntaf, ac fe gafodd 64.9% o achosion eu cau drwy gynnig cyngor.*

* Gwybodaeth reoli'r GIG.



# Nod 2: Astudiaeth Achos

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: Gofal Sylfaenol Brys 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos

“Ym mis Tachwedd 2020, lansiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ei Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos gyntaf yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Dilynwyd hyn yn fuan gan Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys yn Ysbyty Nevill Hall. Mae'r ddwy ganolfan yn cysylltu'n uniongyrchol â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau ac mae ganddynt lwybrau o’r adrannau achosion brys a'r Unedau Mân Anafiadau, yn ogystal â llif galwadau 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos o GIG 111 Cymru.

Mae datblygu'r llwybrau hyn ar sail 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos wedi helpu i gyfeirio pobl ag anghenion gofal brys at y lle iawn yn gyflym, gan gynorthwyo llif cleifion yn ystod cyfnodau prysur. Oddi mewn i feini prawf penodol, gall staff yr adran achosion brys a'r Uned Mân Anafiadau wneud apwyntiadau yn uniongyrchol mewn Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys.

Ochr yn ochr â'r Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys, mae'r tîm hefyd yn hwyluso'r model 'Ystyried Gwasanaeth 111 yn Gyntaf', lle mae uwch-lunwyr penderfyniadau clinigol yn cyfeirio cleifion sy'n cysylltu â GIG 111 Cymru at y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion. Gallai hyn fod yn apwyntiad mewn Canolfan Gofal Sylfaenol Brys, cyfeirio at yr Uned Mân Anafiadau berthnasol sy'n agos at gartref y claf, neu gellir cyfeirio cleifion at wasanaethau fferylliaeth, deintyddiaeth neu optometreg yn y gymuned.

Lansiwyd model integredig wedi'i gydleoli dan arweiniad ymarferydd nyrsio ar gyfer y Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys a'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Ystrad Fawr ym mis Tachwedd 2023. **Ers dechrau'r model, mae 866 o gleifion wedi derbyn cymorth gan y Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys integredig. Mae hyn wedi osgoi'r angen i ailgyfeirio cleifion i rywle oddi ar y safle neu’r angen i gleifion fynd i adran achosion brys Ysbyty Athrofaol y Faenor. Hefyd, mae wedi cefnogi cynaliadwyedd gofal sylfaenol i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal mwyaf priodol, yn y lle iawn, y tro cyntaf.**”*

* Gwybodaeth reoli’r GIG.

# **Nod 3:** cynnydd blwyddyn dau

## **Nod 3:** Dewisiadau eraill sy'n ddiogel yn glinigol yn lle mynd i'r ysbyty

### Ein gweledigaeth:

Pobl yn gallu cael mynediad at ofal priodol a diogel yn agos at eu cartref, gyda chymaint o barhad gofal â phosibl. Dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol yn glinigol y dylid rhoi gwely acíwt i bobl sydd angen gofal parhaus. Mae cysylltiad rhwng y nod hwn a Nodau 1 a 2, a sefydlu gwasanaeth gofal brys integredig 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

**Cynnydd o ran y Rhaglen Chwe Nod yn 2023/24:**

- **Gwasanaethau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod (SDEC)**
  - Y llynedd, agorwyd cyfleusterau SDEC ychwanegol, sy'n golygu bod 24 o wasanaethau ar gael ledled Cymru erbyn hyn sy'n trin ac yn rhyddhau cleifion i fynd adref ar yr un diwrnod, gan osgoi derbyniadau diangen i ysbytai. Mae'r rhain yn cynnwys:
    - 14 o wasanaethau SDEC Meddygol; 8 o wasanaethau SDEC Llawfeddygol; 1 gwasanaeth SDEC Trawma ac Orthopedig ac 1 gwasanaeth SDEC Arbenigol wedi'i leoli yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.
  - Mae data'r GIG sydd wedi'i ddarparu gan y byrddau iechyd yn awgrymu bod dros 7,500 o bobl yn defnyddio gwasanaethau SDEC ledled Cymru bob mis a bod bron i 80% o bobl yn cael eu rhyddhau i fynd adref ar yr un diwrnod.*
  - Mae adolygiad cenedlaethol wedi'i gynnal o'r diffiniadau a'r fethodoleg ar gyfer SDEC a gwasanaethau cysylltiedig fel unedau acíwt er mwyn cefnogi datblygiad parhaus.

- **Dewisiadau eraill diogel yn lle mynd i adrannau achosion brys a'r ysbyty ar gyfer plant a phobl ifanc mewn argyfwng: Prosiect Peilot Noddfa**
  - O dan ymrwymiad 43 o Gytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru / Plaid Cymru ar gyfer Iechyd Meddwl, mae byrddau iechyd yn treialu prosiectau, gyda chymorth cyllid y Cytundeb Cydweithio, sy'n ceisio atal neu leihau dirywiad emosiynol, ymddygiad neu lesiant person ifanc mewn argyfwng.
  - Hyd yma, mae dros £6 miliwn o gyllid cyfalaf a refeniw wedi'i ddyrannu i fyrddau iechyd. Bydd pob cynllun peilot yn cael ei werthuso, a bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i helpu i ddeall effaith pob un o'r modelau sydd wedi'u treialu a llunio ein syniadau ar gyfer y ddarpariaeth fwy hirdymor sydd ei hangen.

* Gwybodaeth reoli'r GIG.

- **Gofal Cymunedol Uwch**
  - Mae elfen Seilwaith Cymunedol y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn gydnaws â Nod 3, sef model cyffredinol ar gyfer gwasanaethau cymunedol i alluogi pobl i fyw'n dda yn eu cartrefi drwy atal, dewis, llesiant ac annibyniaeth.
  - Mae gwaith wedi canolbwyntio ar ofal cymunedol uwch lefel 4, i ddarparu tîm amlasiantaeth o amgylch yr unigolyn, gan osgoi argyfwng ac uwchgyfeirio acíwt lle bo hynny'n ymarferol. Mae hyn yn cynnwys diffiniad Unwaith i Gymru, safonau craidd, datganiadau ansawdd sylfaenol a fframwaith gwerthuso. Mae proses adrodd ar fetrigau yn cael ei datblygu (bydd adrodd yn dechrau ym mis Mehefin 2024) a bydd y broses hon yn darparu llinell sylfaen o weithgarwch gwasanaeth, y cyntaf o'i math ar gyfer y gwasanaethau hyn yng Nghymru. Bydd y fframwaith gwerthuso llawn yn dangos gweithgarwch, gwerth ac effaith.



# Nod 3: Astudiaeth Achos

## Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre: Gwasanaethau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod

“Gweledigaeth ganolog y Gwasanaeth Tocsigedd Imiwnotherapi (IO) yw darparu gwasanaethau effeithiol symlach i gleifion sy'n datblygu tocsigedd o ganlyniad i driniaeth imiwnotherapi. Mae'r Gwasanaeth Imiwnotherapi yn gweithio'n agos gyda thîm yr Uned Gofal Triniaethau Dydd i reoli cleifion ar y cyd.

Enghraifft go iawn o'r gwasanaeth ar waith:

- Roedd gan Glaf A symptomau yn cynnwys cur pen, cyfog a chwydu. Roedd yn dioddef o melanoma cam 4 ac roedd wedi cael triniaeth imiwnotherapi.
- Trefnodd staff Ymddiriedolaeth GIG Felindre apwyntiad i Glaf A yn yr Uned Gofal Triniaethau Dydd i gael ystod o brofion gwaed a thrafod yr achos â'r tîm radioleg.
- Yn dilyn hyn, cafodd sgan CT ar y pen a ddatgelodd hypophysitis acíwt yn gysylltiedig ag IO.
- Diflannodd y symptomau ar ôl dau ddos o steroidau mewnwythiennol a threfnwyd bod Claf A yn mynd i weithdy i ddysgu am y chwarennau adrenal.

Cafodd Claf A ei weld yn yr Uned Gofal Triniaethau Dydd ar gyfer asesiad yr un diwrnod a chafodd ei ryddhau yn dilyn diagnosis. **Y rheswm pam roedd Claf A yn gallu mynd adref mor gyflym oedd oherwydd gwybodaeth arbenigol iawn, apwyntiad dilynol trylwyr, capasiti yn yr Uned Gofal Triniaethau Dydd a llwybr effeithlon.**

Mae'r galw am wasanaethau triniaeth ddydd wedi cynyddu'n sylweddol. Yn ystod 2023/24, ymwelodd mwy na 5,000 o bobl â’r Uned Gofal Triniaethau Dydd.

Mae'r Gwasanaeth Tocsigedd IO wedi gweithio ar y cyd â'r Uned Gofal Triniaethau Dydd dros y flwyddyn ddiwethaf ac wedi adolygu 199 o gleifion wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Ebrill 2024.

Mae'r gwasanaeth wedi ennill dwy wobr yng Ngwobrau Rhagoriaeth Staff Felindre am Wella Profiad Cleifion ac Addysg, Ymchwil ac Arloesi. Yn ogystal â gwobr yng Ngwobrau Cenedlaethol Rhagoriaeth Gweithwyr Proffesiynol Macmillan am Arloesi yn Glasgow yn 2023.”*

* Gwybodaeth reoli’r GIG.

# **Nod 4:** cynnydd blwyddyn dau

## Nod 4:
## Ymateb cyflym os oes argyfwng iechyd corfforol neu iechyd meddwl

### Ein gweledigaeth:
Dylai unigolion sy'n ddifrifol wael neu wedi'u hanafu'n wael, neu mewn argyfwng iechyd meddwl, gael yr ymateb cyflymaf a gorau sy'n gymesur â'u hangen clinigol – ac, os oes angen, dylent gael eu cludo i'r lle iawn ar gyfer gofal diffiniol er mwyn sicrhau'r profiad a'r canlyniad gorau.

**Cynnydd o ran y Rhaglen Chwe Nod yn 2023/24:**

- **Cynllun Ymatebwyr Lles 999 Sant Ioan**
  - Mae'r cynllun hwn yn gysylltiedig â menter 'Connected Support Cymru', Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), lle mae ymatebwyr Sant Ioan yn ymweld â chleifion yn eu cartref, yn cofnodi eu hanes llawn ac yn gwneud arsylwadau clinigol, ac yn gweithio gyda desg gymorth glinigol o bell 999 WAST i gyfeirio pobl i ffwrdd o adrannau achosion brys lle bo hynny'n bosibl.
  - Eleni, fe wnaeth yr ymatebwyr gyfeirio 37% o gleifion at lwybrau heblaw adrannau achosion brys, gyda 17% yn osgoi mynd i'r ysbyty yn gyfan gwbl.*

- **Datganiad Ansawdd ar gyfer Gofal yn yr Adran Achosion Brys**
  - Mae'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Gofal mewn Adrannau Achosion Brys yn bolisi cenedlaethol sy'n amlinellu'r canlyniadau a'r safonau y dylai pobl eu disgwyl wrth dderbyn gofal mewn adrannau achosion brys ledled Cymru.
  - Mae'r Datganiad Ansawdd yn seiliedig ar fewnbwn gan y cyhoedd ac mae'n adlewyrchu pryderon craidd defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â blaenoriaethau staff ymroddedig sy'n gweithio mewn adrannau achosion brys ledled Cymru. Mae'n datblygu'r ymrwymiadau sydd wedi'u hamlinellu yn llawlyfr y Chwe Nod ac mae'n cynnig arweiniad clir i fyrddau iechyd ar feysydd i'w blaenoriaethu ar gyfer gwaith gwella.

* Gwybodaeth reoli'r GIG.

- **Sefydlu Rhwydwaith Clinigol Adrannau Achosion Brys**
  - Mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gofal mewn Argyfwng wedi sefydlu rhwydwaith mawr o feddygon ymgynghorol adrannau achosion brys, uwch-nyrsys a rheolwyr er mwyn rhannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu a sbarduno gweithgarwch gwella. Mae'r rhwydwaith hwn yn cyd-fynd â strwythur y Rhwydwaith Strategol Clinigol Cenedlaethol oddi mewn i Weithrediaeth GIG Cymru, ac mae eisoes yn sicrhau gwelliannau i brosesau adrannau achosion brys.
  - Diolch i gymorth cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a phrosesau ymgysylltu â'r rhwydwaith, Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i sicrhau bod pob adran achosion brys yn rhan o Fframwaith Achredu 'Adrannau Achosion Brys Gwyrdd' y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys – dull strwythuredig o leihau allyriadau, cyfyngu ar wastraff ac arbed costau. Bydd hyn yn helpu i gyflwyno cynlluniau datgarboneiddio lleol y byrddau iechyd ac yn cyfrannu at gyflawni sero net erbyn 2030.




# Nod 4: Astudiaeth Achos

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: Trosglwyddo Cleifion o Ambiwlansys

“**Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi gwella perfformiad o ran trosglwyddo cleifion o ambiwlansys yn sylweddol dros y 18 mis diwethaf; gan ddileu achosion o oedi o 4 awr wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys a lleihau nifer yr achosion o oedi o 2 awr i lai nag 1% o'r rhai sy'n cyrraedd.*** Mae'r gostyngiad ystyrlon hwn yn yr amser cyfartalog y mae ambiwlansys yn aros i drosglwyddo cleifion i'r tîm yn yr adran achosion brys wedi gwella profiad cleifion ac wedi rhyddhau adnoddau ambiwlans i'r gymuned.

Cyflawnwyd y newid hwn mewn perfformiad drwy ddiweddaru prosesau fel derbyn cleifion sy'n caniatáu iddynt gael eu symud i amgylchedd ward, cydbwyso'r risg ar draws y sefydliad, gwella mynediad at ddewisiadau eraill sy’n golygu nad oes angen i’r claf fynd i'r ysbyty, a chydgysylltu'r ymateb sefydliadol pan fydd y galw am welyau yn uchel.

Hefyd, mae’r adran achosion brys wedi gwella amseroedd trosglwyddo cleifion o ambiwlansys drwy ddefnyddio'r 'Parth Asesu a Thriniaeth Gyflym', gan ganiatáu i uwch-lunwyr penderfyniadau clinigol wneud asesiadau cynnar o gleifion gan sicrhau'r defnydd gorau o ardaloedd clinigol yn yr adran, gwella'r broses o flaenoriaethu'r achosion mwyaf brys a sicrhau bod cleifion yn cael y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf.

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y dyhead yw parhau i wella perfformiad o ran trosglwyddo cleifion o ambiwlansys heb unrhyw oddefgarwch ar gyfer arosiadau 2 awr mewn ambiwlans yn 2024/25, ac yna ar gyfer arosiadau 1 awr.”

* Gwybodaeth reoli’r GIG.

# **Nod 5:** cynnydd blwyddyn dau



## **Nod 5:**
## Darparu'r gofal a'r ymarfer rhyddhau gorau posibl i'r claf ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty

### Ein gweledigaeth:
Rhoi'r gofal ysbyty gorau posibl i bobl sydd angen asesiad neu driniaeth tymor byr neu barhaus, cyhyd ag y bo'n ychwanegu budd at y canlyniad, gyda ffocws cryf ar ymarfer rhyddhau da.

**Cynnydd o ran y Rhaglen Chwe Nod yn 2023/24:**

- **Cynlluniau Fframwaith Llif Cleifion**
  - Mae pob rhanbarth wedi lansio cynlluniau gweithredu 'Llif Cleifion Gorau Posibl mewn Ysbytai', gan ddatblygu'r fframwaith a gafodd ei lansio ym mis Rhagfyr 2022. Mae hyfforddiant wedi cael ei ddarparu i helpu i roi'r cynlluniau ar waith.
  - Bu gostyngiad cenedlaethol mewn cyfnodau aros cyfartalog mewn ysbytai dros y flwyddyn galendr, o 8.5 diwrnod (Ionawr 2023) i 7 diwrnod (Rhagfyr 2023).*

- **Atal datgyflyru**
  - Mae ymgyrchoedd fel 'Mai'n Amser Symud' ac 'Awst Actif' yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â gwelliannau llai ar lefel wardiau i hyrwyddo symud ac atal proses ddatgyflyru mewn cleifion ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.
  - Gweithiodd tîm Nod 5 gyda'r Ganolfan ar gyfer Gwerthuso, Asesu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd i gomisiynu adolygiad academaidd o ddatgyflyru ar ôl cyfnod yn yr ysbyty a datblygu matrics datgyflyru.
  - Fe wnaeth grŵp gweithredu Nod 5 lunio archwiliad o gleifion a fu'n aros am y cyfnodau hiraf mewn ysbytai ledled Cymru, a chyflwynwyd yr archwiliad i ystod o uwch-arweinwyr. Ar ôl hynny, cynhaliwyd trafodaeth Ford Gron i gytuno ar gynllun gweithredu lefel uchel i fynd i'r afael â diwylliant a meddylfryd.

* Gwybodaeth reoli'r GIG.



# Nod 5: Astudiaeth Achos

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: Llif Cleifion

“Cenhadaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg yw trawsnewid teithiau gofal iechyd, gan sicrhau bod pob eiliad yn cyfrif i ddefnyddwyr gwasanaethau. O salwch acíwt, i ryddhau o’r ysbyty i fynd adref, i adferiad llawn, mae staff wedi ymrwymo i dywys cleifion â gofal a thosturi bob cam o'r ffordd.

Gyda chymorth y rhaglen genedlaethol Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, partneriaid yn y trydydd sector ac mewn Awdurdodau Lleol, mae staff y bwrdd iechyd wedi datblygu fframwaith gwella sy'n seiliedig ar ansawdd a diogelwch, gan gwmpasu'r pedair colofn ar gyfer llif cleifion a rhyddhau cleifion yn effeithiol: rowndiau bwrdd amlddisgyblaethol gan ddefnyddio bwndel Llif Cleifion SAFER; ar y cyd â'r dull gweithredu 'Dyddiau Coch i Wyrdd’ (R2G); y model Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA); a galluogwyr digidol i gefnogi dull integredig o ddarparu'r llif gorau posibl, gan ryddhau cleifion yn ddiogel ac yn briodol. Mae'r pwyslais ar gartref yn gyntaf ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth ac ar hwyluso eu taith drwy leihau diwrnodau sy'n cael eu colli oddi cartref ac oddi wrth deuluoedd.

Ym mis Rhagfyr 2023, lansiodd staff y fframwaith 'Optimeiddio' i sicrhau gwelliannau i daith cleifion, o adeg eu derbyn i'w rhyddhau. **Mae'r gwelliannau hyn wedi cynyddu ymgysylltiad yn gyffredinol, gan roi ymdeimlad o rymuso ar gyfer newid i staff, a'r gallu i ganolbwyntio ar ofal sy'n canolbwyntio ar y claf drwy ddefnyddio dull gweithredu 'gartref yn gyntaf'.** Rydym wedi ymwreiddio’r model D2RA a’r dull gweithredu R2G yn llwyddiannus – **ers mis Hydref rydym wedi gweld cynnydd o 58% yn nifer y cleifion sydd ar lwybrau D2RA – bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ein cleifion yn cael eu cefnogi a'u rhyddhau yn ddiogel mewn modd amserol**.”

# **Nod 6:** cynnydd blwyddyn dau

## Nod 6:
## Dull 'gartref yn gyntaf' a lleihau'r risg o fynd yn ôl i'r ysbyty

### Ein gweledigaeth:

Ar ôl arhosiad yn yr ysbyty, bydd pobl yn dychwelyd adref – neu i'w cymuned leol gyda chymorth ychwanegol os oes angen – cyn gynted ag y bydd hynny'n bosibl ac yn ddiogel, a hynny er mwyn gwella eu canlyniadau a'u profiad, ac osgoi datgyflyru.

**Cynnydd o ran y Rhaglen Chwe Nod yn 2023/24:**

- **Fframwaith adrodd ar Oedi yn Achos Llwybrau Gofal (PoCD)**
  - Mae'r fframwaith adrodd cenedlaethol wedi bod ar waith ers blwyddyn bellach ac mae'n cynnal cyfrifiad misol o bob achos o oedi dros 48 awr wrth ryddhau cleifion.
  - Mae PoCD yn darparu set gynhwysfawr o ddata wedi'i ddilysu gyda chodau rheswm dros oedi sy'n rhoi trosolwg i fyrddau iechyd a'u partneriaid mewn Awdurdodau Lleol o'r lefelau oedi rhanbarthol wrth ryddhau cleifion i fynd adref fel bod modd targedu ymyriadau a chamau gweithredu yn fwy priodol i helpu i leihau nifer yr achosion o oedi.
  - Yn 2023/24, sef y flwyddyn gyntaf o ddarparu adroddiadau ffurfiol, cafwyd gostyngiad cyffredinol o tua 5% yn nifer yr achosion o Oedi yn Achos Llwybrau Gofal.*

- **Trefniadau cydweithio**
  - Mae byrddau iechyd ac Awdurdodau Lleol yn datblygu Cynlluniau Gweithredu er mwyn helpu i ddeall sut mae pob rhanbarth yn mynd i'r afael â heriau a nodi lle mae angen cryfhau gwasanaethau cymunedol.
  - Bu gostyngiad sylweddol o 40.5% mewn achosion a oedd yn "aros am becynnau gofal ailalluogi" yn 2023/24, sy'n dangos gwelliant o ran gallu gwasanaethau yn y gymuned.*
  - Mae'r Model "Asesydd Dibynadwy" wedi arwain at ostyngiad o 39% mewn achosion a oedd yn "Aros am ddyraniad Gweithiwr Cymdeithasol" yn 2023/24 – gan ryddhau gweithwyr cymdeithasol i ganolbwyntio ar achosion cymhleth.*

* Gwybodaeth reoli'r GIG.

- **Llwybrau Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA)**
  - Datblygwyd pum mesur allweddol i adrodd ar lwybrau D2RA. Mae gan bob un o'r saith bwrdd iechyd a'r tair ymddiriedolaeth systemau ar gyfer cofnodi ac adrodd yn erbyn y mesurau.

- **Cynllun 'Ysbyty i Gartref Iachach'**
  - Mae'r cynllun 'Ysbyty i Gartref Iachach', a ddarperir gan Gofal a Thrwsio yn parhau i weithredu o 17 ysbyty yng Nghymru, gan helpu i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau yn ddiogel ac yn amserol o'r ysbyty a helpu i atal cleifion rhag dychwelyd i'r ysbyty drwy wneud cartrefi'n ddiogel, yn gynnes ac yn fwy hygyrch.*

* Gwybodaeth reoli'r GIG.



# Nod 6: Astudiaeth Achos

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Gofal yn Nes at y Cartref

“Mae Model Gwelyau Dros Dro Ceredigion yn comisiynu gwelyau o gartrefi gofal annibynnol ledled Ceredigion a siroedd cyfagos. Mae'r model hwn yn galluogi gofal yn nes at y cartref ac yn caniatáu asesiadau amserol mewn amgylcheddau priodol a diogel ar gyfer unigolion y nodwyd bod angen lleoliad mewn cartref nyrsio arnynt.

Mae'r gwelyau yn cael eu defnyddio i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion o ysbytai acíwt ac i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty gan bobl yn y gymuned, yn ogystal ag i ddarparu gofal i gleifion lliniarol.

Ar gyfartaledd, comisiynir cyfanswm o wyth gwely ar unrhyw adeg am hyd at bum wythnos er mwyn galluogi asesiadau amserol ar gyfer anghenion hirdymor, a chaiff darpariaethau eu rhoi ar waith i alluogi proses ddatgomisiynu cyn diwedd y cyfnod pum wythnos.

**Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 96 o welyau wedi'u comisiynu; mae 60 o bobl wedi cael eu rhyddhau; mae 37 o bobl wedi symud i leoliad cartref nyrsio; a dangosodd asesiad nad oedd angen y lefel hon o ofal ar 23 o unigolion**, gyda 6 o bobl yn dychwelyd i'w cartrefi eu hunain; 4 yn symud i leoliad cartref preswyl; ac 13 o bobl yn cael eu galluogi i farw yn y lle o'u dewis.”*

* Gwybodaeth reoli’r GIG.